

GORESGYN OFNI'R DYFODOL

Nodyn i'r siaradwr:

Amcan yr anerchiad hwn yw dangos nad oes dim angen inni ofni'r dyfodol os ydym yn gwneud ewyllys Duw. Cyferbyniwch y dyfodol llwm sydd i'r rhai drygionus gyda'r bendithion mae Duw yn eu haddo i'w bobl ffyddlon. Hyrwyddwch hyder

MAE RHESWM DIGONOL DROS I'R DDYNOLIAETH OFNI'R TRYCHINEBAU SYDD I DDOD (6 mun.)

Bron i 2,000 o flynyddoedd yn ôl, rhagfynegodd Iesu y byddai digwyddiadau arswydus yn dod (Darllen Luc 21: 25, 26)

Byddai'r rhain yn digwydd wedi i'r gorthrymder mawr gychwyn gan achosi i genhedloedd fod mewn cyfyngder, a dynion yn llewygu gan ofn yr hyn sy'n dod (Mth 24:29; w94 2/15 20)

Bydd yr ofn hwn yn cydio mewn dynion o bob safle, o enillwyr gwobrau Nobel i'r dyn cyffredin

Hyd yn oed 'nawr, wrth inni agosáu at ddiwedd trefn bresennol pethau, mae llawer o bryder ynglyn â digwyddiadau gwleidyddol, cymdeithasol, ac economaidd ac amodau cyfoes (g93 1/8 4-10, 12)

"Mae llawer o bobl wedi colli eu ffydd yn y dyfodol, oherwydd ym mhob agwedd o'n gwareiddiad bron, 'rydym yn dechrau gweithredu fel petai cymaint o amheuaeth ynglŷn â'n dyfodol fel ei bod yn gwneud mwy o synnwyr i ganolbwyntio yn unig ar ein hanghenion presennol a phroblemau tymor byr" (Al Gore, yn ei lyfr *Earth in the Balance—Ecology and the Human Spirit*)

Ynglŷn â difa'r amgylchfyd, dywedodd arbenigwr ar yr amgylchedd Norman Myers: "Does dim un genhedlaeth yn y gorffennol wedi wynebu dyfodol o ddifodiant torfol o fewn ei hoes. 'Fydd dim un genhedlaeth yn y dyfodol byth yn wynebu her debyg: os metha'r genhedlaeth bresennol â dod i'r afael â'r dasg, bydd y difrod wedi'i wneud a 'fydd 'na ddim 'ail gynnig'" (*State of the World 1988*)

Mae brawychiaeth, trais, troseddu, cyffuriau, anfoesoldeb, trychinebau a heintiau yn nodi amser y diwedd; fel gwewyr esgor ar wraig feichiog (w93 3/1 4-6; w94 7/15 3-4)

Daeth yr amser i Dduw "ddinistrio'r rhai sy'n dinistrio'r ddaear" (Dat 11:18)

MAE GOFYN I'R DRYGIONUS OFNI DYDD LLID JEHOFAH SYDD AR DDOD (15 mun.)

Mae holl fyd drygionus Satan wedi'i nodi ar gyfer ei ddifa (w94 3/1 15-23)

Bydd yr holl genhedloedd yn yfed llid Jehofah ac yn gwallgofi (Darllen Jeremeia 25:15, 16)

Cymherir ei farnedigaethau â 'chwpan gwin yn ewynnu,' diod farwol (Salm 75:7, 8)

Oddi ar 1919, mae'r dosbarth Jeremeia (y gweddill eneniog) wedi bod yn tynnu sylw'r cenhedloedd at y "cwpan" hwn

Drwy gyfrwng ymadroddion "ysbrydion cythreulig," mae'r holl genhedloedd yn cael eu casglu ynghyd i 'ryfel mawr Duw Hollalluog' (Dat 16:13, 14, 16)

Bydd Jehofah yn anfon Iesu Grist i'w plith gyda "chleddyf" dienyddio yn adeg Armagedon (Dat 19:11, 15)

Bydd "tymestl fawr" Jehofah yn ysgubo dros yr holl ddaear gan roi pob gwrthwynebydd i farwolaeth (Darllen Jeremeia 25:31-33)

Yn gyntaf, dinistrir Byd Cred a gweddill gau grefydd yn y "gorthrymder mawr" (Mth 24:21; Dat 18:21)

Bydd teyrnaswyr llywodraethol, neu "fugeiliaid," yn udo yn ystod "y gorthrymder mawr" (Darllen Jeremeia 25:34-38)

Fel mewn adwaith cadwynol, traflyncir yr arweinwyr crefyddol ac yna'r elfennau gwleidyddol gan y "dymestl"

Caiff "porfa'r" rheolwyr, y gyfundrefn sydd ohoni, ei difa

Bydd brenhinoedd y ddaear a'u byddinoedd yn ymladd yn erbyn Rhyfelwr Frenin Jehofah ond cânt eu dinistrio drwy eu bwrw "i'r llyn tân oedd yn llosgi â brwmstan" (Dat 17:12-14; 19:19-21)

Darluniwyd dydd Jehofah sydd ar ddod drwy ddinistrio "byd yr oes honno" ac eithrio Noa a'i deulu, gan y Dilyw (2Pedr 3:6, 7)

Anogir gwrthwynebwy'r i 'gusanu'r' mab, Iesu Grist, er mwyn gwneud heddwch (Salm 2:9-12; w79 1/15 6-7)

Bydd y mwyafrif yn gwrthod yn ystyfnig a chael eu dryllio â gwialen haearn yr Arglwydd Iesu wedi'i orseddu

WYNEBU'R DYFODOL HEB OFN (18 mun.)

'Does dim rhaid i'r rhai sydd yn gwneud sylw o rybudd Jehofah ofni'r dyfodol

Nid anelir llid Duw atynt hwy (Sef 2:3)

Fel yn y gorffennol, mae gan Dduw lawn allu i waredu'i bobl (Ex 6:6-8; 15:1-13, 19; 2Pedr 2:9)

Bydd gan y rhai sy'n gwneud ewyllys Duw y sail gobaith llawen o oroesi i fendithion Teyrnas Dduw

Caiff gwrthwynebwy'r teyrnasu cyfiawn Jehofah gosb dragwyddol (Diar 2:21, 22)

Bydd llywodraeth tangnefedd Jehofah yn disodli byd drygionus Satan (Eseia 9:6, 7)

Bydd y Deyrnas yn cyflawni'r hyn na fedrai unrhyw lywodraeth ddynol obeithio ymgynraedd ato

Bydd ei buddion yn dragwyddol a pherffhaith oherwydd bydd yn addysgu'r holl rai sy'n fodlon derbyn eu hyfforddi yn ffyrdd Duw (Eseia 2:2-4)

Yn hytrach nag ymddiried mewn arfau niwcliar neu uwch-dechnolegol i sicrhau heddwch, mae pobl Jehofah yn ymddiried yn y nerthol Dywysog Tangnefedd

Yn hytrach na dinistrio'r ddaear, bydd yn darparu paradwys

Bydd dynion yn "adeiladu tai ac yn byw ynddynt" ac yn "plannu gwinllannoedd ac yn bwyta'u ffrwyth" yn hytrach na chael anrheithio'u gorchwylion gan elynion (Eseia 65:21, 22; 62:8, 9)

Ni fydd ofn i genhedloedd o elynion oresgyn yn bodoli gan y bydd Jehofah yn gwneud 'i ryfeloedd beidio trwy'r holl ddaear' (Salm 46:9)

Bydd hefyd yn difa'u holl arfau rhyfel

Heddiw, disodlir ofn gan gariad a llawenydd wrth i Jehofah gasglu'r addfwyn ynghyd o'r holl genhedloedd (Dat 7:9, 10)

Hyd yn oed 'nawr mae'r rhain yn ffurfio brawdoliaeth byd eang heb elyniaeth genedlaethol na hiliol (In 13:34, 35; 1Pedr 1:22)

(Defnyddiwch ddatganiadau o ffynonellau newyddion, megis y rhai a geir yn y *Index* o dan "*Jehovah's Witnesses, Statements by Others*")

GORESGYNNWCH OFN—CYNYDDWCH MEWN LLAWENYDD A GOBAITH (6 mun.)

Yn fuan teyrnasa'r gogoneddus Dywysog tangnefedd dros y ddaear gyfan

Mae e'n deilwng o'n hymddiried; daw â meddyginiaethau tragwyddol i bob tristwch (Darllen Mathew 12:18-21) (*gt* 33)

Symudir ymaith holl weithredwyr treisgar Satan; ni fydd yn rhaid i neb ofni'r drygionus eto (Diar 2:22)

Ymddiriedwch yn llwyr yn Jehofah a'i Air proffwydol (Diar 3:5, 6)

Y gobaith o weld anwyliaid yn dychwelyd o Sheol wrth i angau gael ei lyncu mewn buddugoliaeth, ac i ddagrau gael eu sychu (Eseia 25:6-8; *w93* 11/15 6-7)

Canfyddwn fywyd a hapusrwydd di-ddiwedd, pan ddiplanna ofn am byth (Salm 37:39, 40)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)